Ewch i

# newport.gov.uk

**y ffordd gyflymaf i roi gwybod am rywbeth, gofyn am rywbeth, talu am rywbeth, gwneud cais am rywbeth a mwy...**

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

## Eich Canllaw i'r Dreth Gyngor ac Ardrethi Annomestig 2020/21

Mae'r Cyngor yn darparu dros 800 o wasanaethau i dros 153,000 o bobl, sy'n byw mewn dros 68,000 o aelwydydd. Mae'r gwasanaethau hyn yn galluogi'r. Ddinas i redeg bob dydd, i roi addysg i'n plant ac i roi'r cymorth hanfodol i'r bobl sydd fwyaf agored i niwed. Roedd paratoadau'r Cyngor ar gyfer y broses o osod y gyllideb eleni'n seiliedig ar amgylchedd anodd iawn, yn ymateb i heriau cyllidol, yn rheoli arbedion o £41 miliwn a gwblhawyd dros y pum mlynedd diwethaf, wrth sicrhau bod y Cyngor yn dal i gynnig y gwasanaethau a'r cymorth hanfodol y mae nifer gynyddol o breswylwyr eu hangen gan Lywodraeth Leol. Gyda phoblogaeth sy'n cynyddu, daw galw cynyddol ac mae Casnewydd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a gwasanaethau hanfodol eraill yn y blynyddoedd diwethaf. Yn benodol, mae'r galw cynyddol a wynebir gan y Cyngor yn cynnwys:

- Poblogaeth sy'n heneiddio sy'n fwy dibynnol ar ofal; sy'n gofyn am gymorth mwy cymhleth a drud i helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain. Mae'r costau gofal wedi codi o £33 miliwn yn 2015/16 i amcangyfrif o £44 miliwn yn 2019/20.
- Ers 2015/16 bu cynnydd o 85 y cant yn nifer y plant sy'n cael eu rhoi mewn lleoliadau gofal y tu allan i Gasnewydd, a chynnydd o 109 y cant yn nifer y plant mewn lleoliadau maethu annibynnol.
- Mae 1,046 mwy o ddisgyblion na thair blynedd yn ôl, a 256 mwy o ddisgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol a thair ysgol yn ychwanegol i'w cynnal.

Roedd hyn ynghyd â'r cynnydd blynyddol mewn costau a'r angen i ariannu meysydd blaenoriaeth allweddol megis buddsoddi i ysgolion yn golygu bod rhaid i'r Cyngor ystyried ac ariannu buddsoddiadau dros £22 miliwn.

Er gwaethaf y setliad ffafriol gan Lywodraeth Cymru, roedd diffyg yn y cyllid ar gyfer y pwysau cost o dros £22 miliwn Cymeradwyodd y Cabinet becyn arbedion terfynol o £5.4 miliwn ar gyfer 2020/21 a chymeradwyodd y Cyngor gynnydd o 6.95% yn y dreth gyngor, a oedd yn ofynnol er mwyn mantoli'r gyllideb.

**Mae'r cynnydd cyffredinol yn gyfartal â £1.50 yr wythnos ar gyfer annedd Band D neu £77.84 y flwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o gartrefi yng Nghasnewydd yn rhai Band B ac C ac mae'r cynnydd blynyddol hyn yn £60.54 (£1.16 yr wythnos) a £69.19 (£1.33 yr wythnos) yn eu tro.**

Mae angen y cynnydd hwn yn y dreth gyngor er mwyn amddiffyn gwasanaethau hanfodol, y mae'r galw ar eu cyfer yn cynyddu bob blwyddyn. Daliodd y Cyngor mewn sylw yr angen i gyflawni arbedion wrth fantoli'r gyllideb wrth amddiffyn gwasanaethau a buddsoddi i ddyfodol Casnewydd. Mae unrhyw arbedion wedi'u targedu ar gyfer effeithlonrwydd yn hytrach na thoriadau, pan fo'n bosib.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r cynnydd cyfartalog yn y dreth gyngor ledled Cymru oddeutu 6%, sy'n dangos sut y mae'n rhaid i Gynghorau ymdrin â heriau ariannol parhaus. Wedi dweud hynny – nid yw'r sefyllfa wedi newid i breswylwyr Casnewydd, gan fod preswylwyr Casnewydd yn talu llai na'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru a gweddill y DU. Mae cyllideb refeniw ddyddiol gyffredinol y Cyngor yn parhau i fod yn is nag asesiad Llywodraeth Cymru o faint y dylai'r Cyngor fod yn ei wario i gynnig 'lefel safonol o wasanaethau' sef dros £9 miliwn. Er hynny, mae'r Cyngor yn parhau ar ei genhadaeth i gyflawni'r dyheadau a nodir yn y Cynllun Corfforaethol a 'Gwella Bywydau Pobl'.

I gael rhagor o wybodaeth am y dreth gyngor a chyllideb y cyngor ewch i **www.newport.gov.uk/counciltax**

**Y Fenter Twyll Genedlaethol** - Bydd enwau o gronfeydd data'r dreth gyngor a chofrestru etholiadol yn parhau i gael eu datgelu at ddibenion y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI), er mwyn atal a chanfod hawliadau twyllodrus am ostyngiad y dreth gyngor.

Ceir rhagor o wybodaeth ar y Fenter Twyll Genedlaethol ar www.newport.gov.uk/finance

Mae fersiwn Saesneg o'r llyfryn hwn ar gael ar gais. Cysylltwch â 01633 656656. An English version of this booklet is available on request - call 01633 656656.

**Mae'r llyfryn hefyd ar gael mewn llythrennau bras**

# Bandiau Prisio



Bydd cyfanswm y dreth yr ydych yn ei thalu'n amrywio yn ôl band prisio eich cartref, yn ôl yr ardal yng Nghasnewydd y mae eich cartref ynddi.

Mae eich cartref wedi cael ei osod yn un o'r naw band yn ôl ei werth ar y farchnad ar 1 Ebrill 2003.

Gallai'r gwir swm y mae angen i chi ei dalu gael ei leihau gan ostyngiadau neu fel arall. Bydd y bil amgaeedig yn dangos y rhain os yw'n berthnasol.

Ceir manylion sut mae hawlio gostyngiadau yn hwyrach yn y llyfryn hwn.

| | A<br>llai na<br>£44,000 | B<br>£44,001-<br>£65,000 | C<br>£65,001-<br>£91,000 | D<br>£91,001-<br>£123,000 | E<br>£123,001-<br>£162,000 | F<br>£162,001-<br>£223,000 | G<br>£223,001-<br>£324,000 | H<br>£324,001-<br>£424,000 | I<br>dros<br>£424,000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llangadwaladr Trefesgob | 1005.18 | 1172.7 | 1340.24 | 1507.77 | 1842.84 | 2177.89 | 2512.95 | 3015.54 | 3518.13 |
| Coedcernyw | 982.89 | 1146.7 | 1310.52 | 1474.34 | 1801.98 | 2129.61 | 2457.23 | 2948.68 | 3440.13 |
| Allteuryn | 995.23 | 1161.09 | 1326.97 | 1492.84 | 1824.59 | 2156.33 | 2488.07 | 2985.68 | 3483.29 |
| Graig | 997.89 | 1164.2 | 1330.52 | 1496.84 | 1829.48 | 2162.11 | 2494.73 | 2993.68 | 3492.63 |
| Langstone | 1002.56 | 1169.65 | 1336.74 | 1503.84 | 1838.03 | 2172.22 | 2506.4 | 3007.68 | 3508.96 |
| Llanfaches | 995.56 | 1161.48 | 1327.41 | 1493.34 | 1825.2 | 2157.05 | 2488.9 | 2986.68 | 3484.46 |
| Llanwern | 990.94 | 1156.09 | 1321.25 | 1486.41 | 1816.73 | 2147.04 | 2477.35 | 2972.82 | 3468.29 |
| Maerun | 993.89 | 1159.54 | 1325.19 | 1490.84 | 1822.14 | 2153.44 | 2484.73 | 2981.68 | 3478.63 |
| Michaelstone | 1005.56 | 1173.15 | 1340.74 | 1508.34 | 1843.53 | 2178.72 | 2513.9 | 3016.68 | 3519.46 |
| Yr As Fach | 995.61 | 1161.54 | 1327.48 | 1493.42 | 1825.3 | 2157.17 | 2489.03 | 2986.84 | 3484.65 |
| Pen-hw | 1006.26 | 1173.96 | 1341.68 | 1509.39 | 1844.82 | 2180.23 | 2515.65 | 3018.78 | 3521.91 |
| Y Redwig | 1004.11 | 1171.45 | 1338.81 | 1506.16 | 1840.87 | 2175.57 | 2510.27 | 3012.32 | 3514.37 |
| Tŷ-du | 999.09 | 1165.59 | 1332.11 | 1498.63 | 1831.67 | 2164.69 | 2497.72 | 2997.26 | 3496.8 |
| Gwynllŵg | 997.38 | 1163.6 | 1329.84 | 1496.07 | 1828.54 | 2160.99 | 2493.45 | 2992.14 | 3490.83 |
| Ardaloedd Eraill | 980.56 | 1143.98 | 1307.41 | 1470.84 | 1797.7 | 2124.55 | 2451.4 | 2941.68 | 3431.96 |

I gael rhagor o wybodaeth am y dreth gyngor a chyllideb y cyngor ewch i **www.newport.gov.uk/counciltax**

# Ar gyfer beth y mae'r dreth yn cael ei defnyddio



Yn ogystal â'r gwasanaethau a ddarperir yn uniongyrchol gan Gyngor Dinas Casnewydd, mae'r awdurdod hefyd ynghlwm wrth redeg sawl sefydliad arall megis gwasanaethau'r Crwner ac Amlosgfa Gwent.

Mae gan rai sefydliadau'r pŵer hefyd i gyflwyno ardollau i'r Cyngor i godi arian am wasanaethau. Mae'r rhain yn cynnwys Awdurdod Tân De Cymru (£7.4 miliwn) a Bwrdd Draeniau Lefelau Cil-y-coed a Gwynllŵg (£0.77 miliwn).

Mae gan rai sefydliadau'r grym i gasglu treth (praesept) gan bobl Casnewydd. Bydd eich bil treth gyngor yn dangos pob elfen o'r dreth ar wahân.

Dangosir y sefydliadau a symiau eu praesept yn y tabl gerllaw.

| CYRFF SY'N CASGLU TRETHI | 2020/2021 |
|---|---|
| Heddlu Gwent | 16,450,631.00 |
| **Cynghorau Cymuned** | |
| Llangadwaladr Trefesgob | 28,677.99 |
| Coedcernyw | 3,497.62 |
| Allteuryn | 4,072.42 |
| Graig | 76,756.42 |
| Langstone | 63,689.67 |
| Llanfaches | 5,500.12 |
| Llanwern | 14,700.57 |
| Maerun | 30,516.00 |
| Michaelstone | 6,459.75 |
| Yr As Fach | 3,099.78 |
| Pen-hw | 17,648.58 |
| Y Redwig | 4,063.92 |
| Tŷ-du | 149,800.32 |
| Gwynllŵg | 9,145.88 |
| | **16,868,260.04** |

# Cyfrif Refeniw'r Cyngor

| | 2019/20 | 2020/21 | |
|---|---|---|---|
| | Cyfanswm | Cyfanswm | Fesul talwr trethi 'Band D' |
| | £'M | £'M | £ |
| Gwariant Gros | 424.2 | 454.5 | 7,540.9 |
| Namyn: Grantiau Penodol y Llywodraeth | 113.8 | 123.4 | 2,047.9 |
| Namyn: Rhent, Taliadau ac ati. | 29.6 | 30.8 | 510.8 |
| | 280.8 | 300.3 | 4,982.2 |
| Trosglwyddiadau i/ (o) Arian Wrth Gefn a Threuliau Annisgwyl | -0.2 | -0.3 | -5.0 |
| Gwariant Net a Ariennir gan: | 280.6 | 300.0 | 4,977.4 |
| Grant Cynnal Refeniw | 214.3 | 228.1 | 3,784.4 |
| Treth Gyngor | 66.3 | 72.2 | 1,197.88 |
| | 280.6 | 300.3 | 4,982.4 |



Ar 1 Ebrill 2019 roedd gan y Cyngor gronfeydd wrth gefn o gyllid cyffredinol gwerth £6.5 miliwn a rhagwelir y bydd y cronfeydd wrth gefn o gyllid cyffredinol yn aros ar y lefel hon ar 31 Mawrth 2020.

## Asesiad Gwario Safonol (SSA)

Dyma gyfrifiad y llywodraeth o faint y mae angen ei wario er mwyn darparu lefel safonol o wasanaethau.

Y ffigur ar gyfer Casnewydd yn 2020/21 yw £309.5 miliwn.

Cyllideb y Cyngor yw £300.3 miliwn.

# Incwm 2020/21

Prif ffynonellau cyllid y Cyngor yw Grant Cynnal Refeniw (RSG) Llywodraeth Cymru a grantiau penodol. Mae'r dreth gyngor yn cyfrannu tua 16% at gyfanswm incwm.




# Gwariant 2020/21

Bydd y Cyngor yn gwario dros £450 miliwn yn 2020/21 y bydd bron ei hanner yn ariannu Ysgolion a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.



## Prisio

Mae rhan fwyaf yr aneddiadau'n amodol ar dreth gyngor, yn seiliedig ar fandiau prisio sydd ar waith ers 1 Ebrill 2005. Dangosir yr ystod prisio ar drydedd dudalen y llyfryn hwn.

## Apeliadau

Os hoffech drafod unrhyw fater ar y Rhestr Brisio, e.e. band prisio eich cartref, dylech gysylltu ag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tŷ Glyder, 339 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1EP, Ffôn: 03000 505505; e-bost: ctwales@voa.gsi.gov.uk Oni bai am faterion megis cywiro gwallau clercaidd, ni chewch apelio os oes chwe mis wedi mynd heibio ers y diwrnod y daethoch chi'n drethdalwr yn yr annedd.

Cewch hefyd apelio yn erbyn atebolrwydd y dreth gyngor, e.e. os na ddylai'ch eiddo chi orfod talu. Dylech apelio i'r cyngor ond nid oes modd oedi taliadau wrth apelio. Os ydych yn llwyddiannus, byddwn yn ad-dalu unrhyw ordaliadau.

## Aneddiadau nad ydynt yn gorfod talu

Does dim rhaid i rai eiddo dalu, gan gynnwys eiddo a feddiannir gan fyfyrwyr yn unig, pobl o dan 18, pobl sydd â nam meddyliol difrifol, rhandai y mae aelodau teulu dibynnol yn byw ynddynt ac eiddo gwag sydd:

- heb ddodrefn (uchafswm o chwe mis)
- yn eiddo i elusen (uchafswm o chwe mis)
- angen/wrthi'n cael gwaith mawr (uchafswm o ddeuddeg mis)
- yn wag gan fod rhywun yn y carchar, neu sydd wedi symud i dderbyn gofal mewn ysbyty, cartref neu rywle arall
- yn wag gan fod rhywun wedi symud i gynnig gofal personol i berson arall
- yn wag oherwydd bod myfyrwyr wedi gadael
- yn aros am brofiant neu lythyrau gweinyddu (ac ar gyfer hyd at chwe mis ar ôl profiant)
- wedi'u hadfeddiannu
- yn gyfrifoldeb ar ymddiriedolwr methdalwr
- yn wag gan na chaniateir meddiannaeth gan y gyfraith
- yn aros i weinidog crefydd feddiannu'r eiddo
- rhandy nad oes modd ei osod ar wahân

Does dim rhaid i aneddiadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn dalu chwaith, bydd eu meddianwyr yn cyfrannu at wariant y cyngor drwy drefn arbennig.

## Eiddo gwag ac ail gartrefi

Mae rhai eiddo gwag wedi'u heithrio (gweler uchod). Mae gan y Cyngor bwerau ar ddisgresiwn i leihau neu ddiwygio'r disgownt ar gyfer aneddiadau nad oes neb yn byw ynddynt ac aneddiadau heb ddodrefn. O 1.04.2019 mae'r Cyngor wedi pennu y bydd y disgownt hwn yn 0%. Bydd Ail Gartrefi hefyd yn cael disgownt o 0%. Bydd eich bil yn dangos a yw eich eiddo yn y dosbarth hwn.

## Gostyngiad

Mae gostyngiad o 25% ar gyfer preswylfa oedolyn sengl. Nid yw'r canlynol yn cyfrif tuag at nifer y preswylwyr sy'n oedolion:

- myfyrwyr llawn-amser, nyrsys sy'n fyfyrwyr, prentisiaid a hyfforddeion hyfforddiant ieuenctid
- cleifion yn yr ysbyty
- pobl sy'n cael gofal mewn cartrefi gofal
- pobl sydd â nam meddyliol difrifol
- pobl sy'n aros mewn hosteli penodol neu lochesau gyda'r nos
- pobl 18 ac 19 oed sydd yn yr ysgol neu sydd newydd ei gadael
- gweithwyr gofal sy'n gweithio ar gyflog isel, i elusennau fel arfer
- pobl sy'n gofalu am rywun gydag anabledd (ddim yn briod, yn bartner neu'n blentyn dan 18)
- aelodau lluoedd sy'n ymweld a sefydliadau rhyngwladol penodol
- pobl yn y carchar (heblaw os ydynt yno am beidio talu'r dreth gyngor neu ddirwy)
- aelodau cymunedau crefyddol (mynachod a lleianod)

Mae gan y Cyngor ddisgresiwn i roi neu amrywio disgowntiau ac eithriadau oherwydd amgylchiadau lleol megis trychinebau naturiol. Gellid cyflwyno disgowntiau unigol e.e. ar gyfer caledi.

Os ydych yn credu bod gennych hawl ar unrhyw ostyngiad, cysylltwch â'r cyngor. Os yw'ch bil yn dangos gostyngiad, mae'n rhaid i chi roi gwybod i'r cyngor am unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau. Os na wnewch hynny, gallwch gael dirwy.

## People with disabilities

Os oes angen ystafell ar breswylydd, neu ystafell ymolchi neu gegin ychwanegol, neu ofod ychwanegol yn eich eiddo i ddiwallu anghenion anabl, gallwch fod yn gymwys ar gyfer gostyngiad. Gellid lleihau'r bil gan un band prisio.

Mae'r gostyngiadau hyn yn sicrhau nad yw pobl anabl yn talu mwy o dreth gan fod gwirioneddol angen gofod ychwanegol. Os yw'ch cartref ym Mand A, bydd y bil yn cael ei ostwng gan un nawfed o gost Band D.

Mae'r wybodaeth a roddir yn egluro rhai o'r telerau y gellid eu defnyddio ar alw am ardreth annomestig ac yn y wybodaeth ategol. Gellid cael rhagor o wybodaeth am gymhwysedd ardrethi annomestig gan awdurdodau bilio.

## Ardrethi annomestig

Telir yr ardrethi annomestig a gasglwyd gan awdurdodau bilio i gronfa ganolog a'u hail-rannu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac awdurdodau'r heddlu. Mae eich cyngor ac awdurdod yr heddlu'n defnyddio eu rhan nhw o incwm graddfa a ail-rannwyd, ynghyd ag incwm gan drethdalwyr, grant cynnal refeniw a ddarperir gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill i dalu am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu.

## Gwerth ardrethol

Mae gwerth ardrethol eiddo annomestig yn y rhan fwyaf o achosion yn cael ei osod gan swyddog prisio annibynnol.

Asiantaeth y Swyddfa Brisio. Caiff pob eiddo annomestig ei ail-brisio bob pum mlynedd. O 1 Ebrill 2010, mae gwerth ardrethol eiddo'n cynrychioli ei werth rhent ar y farchnad agored flynyddol fel ag yr oedd ar 1 Ebrill 2008.

Ar gyfer eiddo cymysg sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, mae'r gwerth ardrethol yn berthnasol i'r rhan annomestig yn unig. Mae gwerthoedd yr holl eiddo mewn perthynas â pha ardrethi sy'n daladwy i'ch awdurdod wedi'u nodi yn y rhestr ardrethi lleol, y mae modd.

Modd archwilio copi ohoni yn: Ardrethi Annomestig Cymru, Asiantaeth y Swyddfa Brisio, Tŷ Rhodfa, Ffordd Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GR (e-bost: ratingwales@ voa.gsi.gov.uk; Ffôn: 03000 505505) neu yn swyddfeydd Cyngor Dinas Casnewydd yn yr Orsaf Wybodaeth, Queensway, Casnewydd, NP20 4AX

## Alteration of rateable value

Gall y gwerth ardrethol newid os yw'r swyddog prisio'n credu bod amgylchiadau'r eiddo wedi newid. Dan rai amgylchiadau penodol, gall y talwr ardrethi (a phobl benodol eraill sydd â budd yn yr eiddo) gynnig newid mewn gwerth. Os nad yw talwr yr ardrethi a'r swyddog prisio'n cytuno ar y prisiad o fewn 3 mis o'r cynnig, bydd y mater yn cael ei gyfeirio fel apêl at dribiwnlys prisio. Mae rhagor o wybodaeth am sut i gynnig newid o ran gwerth ardrethol ar gael gan swyddfeydd prisio.

## Lluosydd ardrethi annomestig cenedlaethol

Dyma'r ardreth yn y bunt y caiff y gwerth ardrethol ei luosi gyda hi er mwyn rhoi bil blynyddol i eiddo. Bydd y lluosydd, sy'n cael ei osod gan Weinidogion Cymru bob blwyddyn, yr un peth ar gyfer Cymru gyfan ac oni bai yn ystod blwyddyn ailbrisio, does dim modd iddo godi mwy na graddfa'r cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu.

## Cynigion ac apeliadau

Mae gwybodaeth am yr amgylchiadau y gellid cynnig newid i werth ardrethol ar eu cyfer, a sut mae gwneud cynnig o'r fath, ar gael gan y swyddfa brisio leol a nodir uchod. Ceir rhagor o wybodaeth am y trefniadau apelio gan Gyngor Dinas Casnewydd neu gan Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar www.voa.gov.uk.

## Ardrethu eiddo heb ei feddiannu

Bydd perchnogion eiddo annomestig heb eu meddiannu o bosibl yn agored i ardrethi eiddo gwag sy'n costio 100% o'r rhwymedigaeth arferol. Bydd yr atebolrwydd yn dechrau ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 3 mis neu, mewn achosion o ffatrïoedd a warysau, ar ôl i'r eiddo fod yn wag am 6 mis. Nid yw pob math o eiddo'n agored i ardrethi eiddo gwag.

## Rhyddhad Elusennol ac yn ôl Disgresiwn

Mae elusennau a chlybiau chwaraeon amatur cymunedol â hawl i gael gostyngiad gan 80% o ardrethi ar unrhyw eiddo annomestig pan fo:

(a) yn achos elusennau, mae'r eiddo'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl neu'n rhannol at ddibenion elusennol, neu

(b) yn achos clwb, mae'r clwb wedi cofrestru â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi. Mae gan awdurdodau bilio Ddisgresiwn i ddileu yn gyfan gwbl neu'n rhannol y 20 y cant sydd ar ôl o fil eiddo a gall hefyd roi rhyddhad o ran eiddo a feddiennir gan gyrff penodol nas sefydlwyd neu a gynhaliwyd er elw.

I gael rhagor o wybodaeth am glybiau, dylech gysylltu â Chyllid a Thollau ei Mawrhydi, Uned y Clwb Chwaraeon, Tŷ St. Johns, Merton Road, Bootle, L75 1BB (0845 3020203) (mae'r wefan yn http://www.hmrc.gov.uk).

## Gostyngiad ardrethu i fusnesau bychan

Mae Gorchymyn Ardrethi Annomestig (Gostyngiadau i Fusnesau Bychan) (Cymru) 2017 yn darparu ar gyfer cynllun gostyngiad ardrethi busnesau bychan parhaol yng Nghymru o 1 Ebrill 2018 ymlaen.

## Busnesau cymwys

Mae'r cynllun yn berthnasol i'r gostyngiadau canlynol:

## Adran A

• Mae rhan fwyaf yr eiddo a feddiannir gyda gwerth ardrethol o £6,000 neu lai'n gymwys ar gyfer gostyngiad o 100%. Golyga hyn na fyddwch yn talu ardrethi busnes ar gyfer yr eiddo hynny.

• Mae cyfradd y rhyddhad ardrethi'n gostwng o 100% i 0% ar gyfer eiddo sydd â gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £12,000. Mae rheolau gwahanol yn berthnasol i swyddfeydd post ac eiddo a ddefnyddir yn gyfan gwbl ar gyfer gofal plant gan ddarparwyr gofal plant cofrestredig a eglurir isod.

## Swyddfeydd Post

- Bydd Swyddfeydd Post (ac eiddo nad ydynt yn cynnwys Swyddfeydd Post) gyda gwerth ardrethol hyd at £9,000 yn derbyn gostyngiad o 100%;
- Bydd Swyddfeydd Post (ac eiddo nad ydynt yn cynnwys Swyddfeydd Post) gyda gwerth ardrethol rhwng £9,001 a £12,000 yn derbyn gostyngiad gan 50%.

### Adran B – Eiddo Gofal Plant Cofrestredig

- Ar gyfer eiddo gofal plant cofrestredig sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gofal plant, mae graddfa'r gostyngiad yn lleihau o 100% i 0% ar gyfer eiddo gyda gwerth ardrethol rhwng £6,001 a £100,000.

### Ardrethi Busnesau Bychan i sawl busnes

Mae'r newidiadau i reoliadau Llywodraeth Cymru a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2018 bellach yn cyfyngu ar nifer yr eiddo sy'n gymwys ar gyfer Gostyngiad Ardrethi Busnesau Bychan i sawl busnes.

Mewn achosion lle mae'r trethdalwr yn gyfrifol am fwy nag un eiddo ar un rhestr ardrethi annomestig lleol ("rhestr leol"), ac mae'r eiddo hynny ond yn bodloni'r amodau gwerth ardrethol, bydd y talwr ond yn derbyn gostyngiad am uchafswm o ddau eiddo o'r fath.

Dan Erthygl 4 y rheoliadau, os yw talwr yn gyfrifol ar gyfer talu ardrethi busnes ar gyfer mwy na dau eiddo a nodir ar y rhestr leol ym mhob ardal Cyngor, sy'n bodloni amodau'r gwerth ardrethol, rhaid i'r talwr roi gwybod i'r Cyngor am yr eiddo hynny cyn gynted ag y mae'n rhesymol i wneud hynny.

Cyfrifoldeb y trethdalwr yw rhoi gwybod i'r Cyngor os yw'n derbyn mwy na dau achos o Ostyngiad Busnes Bychan ar hyn o bryd mewn perthynas ag unrhyw eiddo y maen nhw'n gyfrifol am dalu ardrethi busnes ar ei gyfer. I adrodd am newid mewn amgylchiadau, cysylltwch â'r isadran Ardrethi Busnes.